

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

342 - Beirniadaeth Rhyddiaith BL 9

Beirniad: Rebecca Roberts

16 stori fer daeth i law, yn trafod pynciau mor amrywiol â Jack the Ripper, anorecsia, tlodi a sut i redeg bwyty. Wnes i fwynhau darllen yr arlwy yn fawr. Roedd yna rywbeth i werthfawrogi yng ngwaith bob un cystadleuydd: dawn ddisgrifiadol wych, deialog tafodieithol hyfryd neu'r gallu i lunio troad bendigedig yng nghynffon y stori.

Yn gyffredinol, roedd safon yr iaith yn dda, ond peidiwch â bod ofn gofyn i gyfaill neu athro fwrw golwg dros eich gwaith. Rhywbeth arall i gadw mewn cof ydi'r angen i ddangos yn lle dweud; hynny yw, i beidio â bwydo gwybodaeth i'r darllenydd.

Roedd y straeon goreuon yn aeddfed ac yn gynnil; yn canolbwyntio ar y pethau bach ond hefyd yn llwyddo i drafod themâu mawr bywyd. Nid tasg hawdd felly oedd dewis yr enillydd, gan roedd y goreuon yn gryf iawn o ran plot, iaith a chymeriadu. Mae dawn i lunio cymeriadau byw gan Gwern, a chyflwynodd stori deimladwy am unigrwydd. Cydiodd stori Elin am ddirgelwch Orford Ness o'r paragraff cyntaf un. Teimlais fy mod i'n gweld ac yn synhwyro'r byd trwy lygaid y prif gymeriad. Diffyg diweddglo cadarn oedd y prif reswm iddi beidio â derbyn y wobr gyntaf. Ges i'r teimlad mai dechrau nofel oeddwn i'n ei darllen yn hytrach na stori fer - a ro'n i'n ysu i gael darllen ymlaen. Stori am fachgen yn dwyn oddi ar elusen oedd ymgais Heledd - gweithred fyddai'r rhan fwyaf o bobl yn gweld yn anfaddeuol. Ei champ oedd gwneud i mi gydymdeimlo â Jac, hyd yn oed ar ôl y drosedd. Portread cynnil o effeithiau tlodi a geir yma, a erys yn fy meddwl am ddyddiau wedyn.

Llongyfarchiadau!

1af - Heledd Francis 2il - Elin Brychan 3ydd - Gwern Roberts